Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 03.03.2021

## Arian ychwanegol ar gyfer busnesau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth

Heddiw, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £30 miliwn ychwanegol ar gyfer busnesau twristiaeth, lletygarwch a hamdden sydd wedi teimlo effeithiau cyfyngiadau'r coronafeirws. Cadarnhawyd hefyd, gan ddibynnu ar ganlyniad yr adolygiad nesaf ar 12 Mawrth, y gallai gwerth £150 miliwn o grantiau gael eu neilltuo i fusnesau, gan gynnwys micro-fusnesau, trwy gynllun Ardrethi Annomestig (NDR) Llywodraeth Cymru os caiff cyfyngiadau'r coronafeirws eu estyn. O heddiw ymlaen, bydd busnesau lletygarwch, twristiaeth a hamdden yn cael mynd ar y gwiriwr cymhwysedd a'r gyfrifiannell sydd ar wefan Busnes Cymru i'w helpu i weithio allan pa gymorth y gallent fod yn gymwys iddo yn y rownd ddiweddaraf hon a deall y manylion sydd eu hangen i wneud cais. Bydd yr ail gyfnod ymgeisio am Gronfa Penodol i'r Sector yn agor ddydd Mawrth 9 Mawrth 2021 tan 8:00pm ddydd Gwener 12 Mawrth 2021.Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/arian-ychwanegol-ar-gyfer-busnesau-lletygarwch-hamdden-thwristiaeth

Ar gyfer y gwiriwr cymhwysedd, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/ssgp2/cy

Mae Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau Chwefror/Mawrth 2021 Llywodraeth Cymru yn parhau i fod ar agor. Os ydi hi wedi bod ofynnol neu'n orfodol i'ch busnes gau, neu ei fod wedi colli rhan sylweddol o'i incwm oherwydd cyfyngiadau Lefel 4, gwiriwch eich cymhwysedd drwy fynd i:

http://bit.ly/CronCyfMawrth2021

## 'Yn Gefn i Chi': Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau drwy ymgyrch newydd

Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch newydd ar 1 Mawrth 2021 i hyrwyddo'r cymorth pwysig sydd ar gael i fusnesau i'w helpu i ddelio â phwysau parhaus coronafeirws, a chynllunio ar gyfer dyfodol mwy llewyrchus.Bydd yr ymgyrch 'Yn Gefn i Chi' yn annog cwmnïau ar hyd a lled Cymru i fanteisio ar y cyngor a'r arweiniad sgiliau a chyflogaeth sydd ar gael drwy'r Porth Sgiliau i Fusnes ar-lein. Am fwy o wbodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3qd5TK8

Ar gyfer y Porth Sgiliau i Fusnes, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy

## BarberTalk Ar-lein Cymru 9 Mawrth 2021

Mae BarberTalk yn cynnal cwrs hyfforddi ar-lein pwrpasol i gynorthwyo gweithwyr gwallt proffesiynol yng Nghymru a'r Gororau cyn iddynt ddychwelyd i'r gwaith, gan roi'r sgiliau iddynt helpu eu cleientiaid pan fyddant mewn angen. Bydd y sesiwn fanwl hon yn rhoi'r sgiliau i weithwyr gwallt proffesiynol helpu eu cleientiaid i wella lles meddyliol. Am fwy o wybodaeth am y digwyddiad rhithwir yma, fydd yn cael ei gynnal ar 9 Mawrth 2021, o 10:00am – 2:00pm, ewch i:

http://bit.ly/3uOjvza

## Dosbarthiadau Meistr Trefi SMART: Seilwaith digidol ar gyfer tref SMART 11 Mawrth 2021

Y pedwerydd yn y gyfres o 5 Dosbarth Meistr yn ffocysu ar sut gall data helpu canol trefi a strydoedd mawr addasu, yn dilyn o'r digwyddiad rhagarweiniol ar Hydref 2020, 'Adfywio o Covid19: Trefi SMART'. Bydd y dosbarth meistr yma yn canolbwyntio ar yr elfennau technegol o ddatblygu'r haen seilwaith sydd ei hangen ar gyfer tref SMART, ac yn cael ei gynnal ar 11 Mawrth 2021 o 2:00pm – 3:00pm. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/2PvYKYY

## MADE Cymru yn arwain trafodaeth am ddyfodol disglair gweithgynhyrchu yng Nghymru

Fel partner thema yn Emerging Tech Fest 2021 y mis diwethaf, cynhaliodd MADE Cymru drafodaeth ford gron gyda nifer o arbenigwyr yn y diwydiant i siarad am sut mae gweithgynhyrchwyr wedi gorfod addasu i heriau'r pandemig, a sut mae rhai wedi ffynnu. Mae'r erthygl gyhoeddwyd wedi'r drafodaeth yma, 'MADE Cymru yn arwain trafodaeth am ddyfodol disglair gweithgynhyrchu yng Nghymru' ar gael yma:

http://bit.ly/3sN6rse

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru